



AQA

CCEA

OCR

Pearson

CBAC

Canllawiau – nodiadau ar drefniadau safle arall ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021/22

Yn ychwanegol i'r nodiadau arweiniol hyn **rhaid** i ganolfannau hefyd gyfeirio at gyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*: https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

1. **Rhaid ond** defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer arholiadau ysgrifenedig wedi'u hamserlennu yn y cymwysterau canlynol:
 - AEA
 - Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA
 - Cymwysterau Technegol Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3 AQA
 - Cymwysterau BTEC (Cymwysterau Cyntaf BTEC, Cymwysterau Cenedlaethol BTEC a Dyfarniadau Tech BTEC)
 - Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt
 - Cymwysterau Technegol Caergrawnt
 - Dyfarniadau Edexcel
 - TGAU Rhyngwladol Edexcel
 - TLM
 - FSMQ
 - TAG
 - TGAU
 - Tystysgrifau Lefel 3 OCR
 - Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
 - Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
 - Tystysgrifau Cymhwysol, Diplomâu a Diplomâu Estynedig Lefel 3 CBAC.

Cysylltwch â'r corff dyfarnu perthnasol am arweiniad ar unrhyw gymwysterau eraill.

Gwneir cyflwyno ar-lein drwy Borth Gweinyddol y Ganolfan (PAC). Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.

2. **Ni ddylid** cyflwyno ar-lein ar gyfer asesiadau nad ydynt wedi'u hamserlennu e.e. asesiadau dan reolaeth TGAU, gwaith cwrs TAG, asesiadau di-arholiad, Profion Siarad ITM neu asesiadau ymarferol TAG/TGAU. Os oes angen safle arall ar gyfer asesiad sydd heb ei amserlennu, **rhaid** i ganolfannau gysylltu â'r corff dyfarnu am arweiniad.
3. **Dylid ond** defnyddio cyflwyniad ar-lein pan mae canolfan yn bwriadu cynnal arholiad ar gyfer unrhyw ymgeiswyr ar safle arall heblaw am gyfeiriad cofrestredig y ganolfan (gweler dogfen y CGC – *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*).
4. **Nid yw** trefniadau safle arall yn berthnasol i drefniadau ymgeisydd sydd wedi'i drosglwyddo.
5. **Rhaid** trafod unrhyw ymholiadau am addasrwydd y safle arfaethedig â Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC cyn cwblhau'r ffurflen ar-lein.

6. **Rhaid** cadw papurau cwestiynau a deunyddiau arholiadau o dan amodau diogel yng nghyfeiriad cofrestredig y ganolfan tan **90 munud cyn amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad**. Yna, bydd aelod o staff y ganolfan yn mynd â'r papurau cwestiynau i leoliad yr arholiad.
7. **Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod y papurau cwestiynau a deunyddiau arholiadau yn cael eu cludo'n ddiogel o fewn 90 munud i amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad**.
8. **Ni ddylid** cludo deunydd cyn diwrnod yr arholiad **ar unrhyw gyfrif**.
9. **Pennaeth y ganolfan sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr arholiad(au) yn cael eu cynnal yn unol â ddogfen y CGC Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau**.

Rhaid cyflwyno ar-lein yr hysbysiad o'r bwriad i gynnal arholiadau mewn safle arall yn ddim hwyrach na chwe wythnos cyn dechrau'r gyfres arholiadau.

Fodd bynnag, os yw'r hysbysiad i ymgeisydd sefyll arholiad gartref neu yn yr ysbyty oherwydd cyflwr meddygol, efallai na fydd yn bosibl cyflwyno'r wybodaeth chwe wythnos ymlaen llaw. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid gwneud cyflwyniad hwyr cyn gynted ag y byddwch yn gwybod y manylion.

Os yw'r ganolfan wedyn yn nodi nad oes angen y trefniant safle arall mwyach, yna dylid ei dynnu'n ôl ar-lein gan ddefnyddio Porth Gweinyddu Canolfannau.

DS Nid yw defnyddio safle arall yn drefniant y mae angen ei gymeradwyo ymlaen llaw. Mae angen llenwi'r ffurflen ar-lein er mwyn hysbysu Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC y bydd y ganolfan yn cynnal arholiadau oddi wrth y cyfeiriad cofrestredig. Pan fydd y ffurflen wedi'i chyflwyno, nid oes angen cysylltu â Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC i gael cadarnhad bod y trefniant wedi'i gymeradwyo.

Cyngor:

Canolfannau yn Lloegr a'r Alban:

e-bost: jcinspectionsservice@aqg.org.uk

Ffôn: 01483 556 271

Canolfannau yng Nghymru

e-bost: jcinspectionsservice@wjec.co.uk

Ffôn: 02920 265 077

Canolfannau yng Ngogledd Iwerddon

e-bost: centresupport@ccea.org.uk

Ffôn: 028 9026 1293